## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487 (FFORDD GYSWLLT RHWNG CYLCHFAN PARC MENAI A CHYLCHFAN FFORDD TREBORTH, BANGOR, GWYNEDD) A CHEFNFFORDD YR A55 (FFYRDD YMUNO AC YMADAEL WRTH GYFFORDD 9 (TREBORTH), GWYNEDD) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2025

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffyrdd yr A487 a'r A55, neu gerllaw iddynt, wrth Gyfnewidfa Treborth, Bangor, Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, pob beiciwr a phob cerddwr rhag mynd ar y darnau o gefnffyrdd yr A487 a'r A55 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y trefniadau ar gyfer llwybrau eraill yn yr Atodlen honno hefyd.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 22 Medi 2025. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn weithredol dros nos (19:00 – 05:00 o'r gloch) rhwng 22 Medi a 5 Hydref 2025, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

### YR ATODLEN

Y darn o gefnffordd yr A487 rhwng Cylchfan Parc Menai a Chylchfan Ffordd Treborth, Bangor.

## THE A487 TRUNK ROAD (LINK ROAD BETWEEN PARC MENAI ROUNDABOUT AND TREBORTH ROAD ROUNDABOUT, BANGOR, GWYNEDD) AND THE A55 TRUNK ROAD (SLIP ROADS AT JUNCTION 9 (TREBORTH), GWYNEDD) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS & PEDESTRIANS) ORDER 2025

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A487 and A55 trunk roads at Treborth Interchange, Bangor, Gwynedd.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, cyclists and pedestrians from proceeding on the lengths of the A487 and A55 trunk road described in the Schedule to this Notice. The alternative route arrangements are also explained therein.

The Order comes into force on 22 September 2025. The temporary prohibitions are expected to operate overnight (19:00 – 05:00 hours) from 22 September to 5 October 2025, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government

### SCHEDULE

The length of the A487 trunk road between Parc Menai Roundabout and Treborth Road Roundabout, Bangor.

Cerbytffyrdd cylchredol Cylchfan Parc Menai a Chylchfan Ffordd Treborth yr A487, Bangor.

Y darnau o ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain a thua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth), Bangor.

Y llwybrau eraill

Codir arwyddion priodol i nodi'r gwyriad ar gyfer y llwybrau eraill. Bydd y llwybrau'n amrywio gan ddibynnu ar ben y daith ac yn unol â pha ddarn o'r ffordd ymuno/ymadael a/neu ffordd gyswllt a ddisgrifir uchod sydd ar gau dros dro i draffig.

Bydd llwybrau eraill ar gael ar hyd yr A55, yr A4087 Ffordd Caernarfon, yr A487, yr A5, y Ffordd Gyswllt Dosbarth 3, Ffordd Penrhos a Ffordd Faenol, fel sy'n briodol.

The circulatory carriageways of the A487 Parc Menai Roundabout and Treborth Road Roundabout, Bangor.

The lengths of the A55 eastbound and westbound exit and entry slip roads at Junction 9 (Treborth Interchange), Bangor.

Alternative routes

The alternative routes will be signed with appropriate diversion signs and will vary depending on destination and according to which length of slip road and/or link road described above is temporarily closed to traffic.

Alternative routes will be available via the A55, A4087 Caernarfon Road, A487, A5, the Class 3 Link Road, Penrhos Road and Faenol Road, as appropriate.